Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Cyngor Celfyddydau Cymru

Penodi Aelodau'r Cyngor (Cymraeg yn Hanfodol)

Dyddiad cau: 23 Tachwedd 2020
am 16:00

The Commissioner for Public Appointments

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cynnwys

Cyflwyno Cais

Atodiad A: Penodi Aelodau o Gyngor Celfyddydau Cymru

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru

Atodiad C: Y broses ddethol

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyflwyno cais

Diolch am eich diddordeb mewn cael eich penodi'n aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru. Fel aelod, byddwch yn helpu i gynnal ac i ddatblygu'r profiadau celfyddydol a ddarperir ar gyfer pobl Cymru. Byddwch yn cyfrannu at ddatblygu a chyflawni polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r Atodiadau amgaeedig yn rhoi manylion am rôl yr aelodau a manyleb y person, ac am rôl a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Aelodau Cyngor Celfyddydau Cymru a chliciwch ar 'Gwneud cais' ar y gornel chwith isaf. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a byddwch yn gallu cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill a wnewch, drwy'ch cyfrif cofrestredig.

Ar ôl ichi gofrestru, byddwch yn gallu defnyddio'r ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a'ch CV i'r adran 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw'ch cyfle i 1) amlinellu'ch diddordeb yn y rôl, 2) dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person, a 3) amlinellu sut y gallech gyfrannu at waith Cyngor Celfyddydau Cymru. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch fod yn glir ynghylch i ba feini prawf y mae tystiolaeth benodol yn perthyn. Mae darparu paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer cyffredin.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn fwy na dwy tudalen. Efallai y bydd eich cais yn cael ei wrthod os bydd yn hirach na hynny.

CV

Gwnewch yn siŵr bod eich CV yn cynnwys manylion byr am eich swydd gyfredol neu ddiweddaraf a'r dyddiadau y buoch yn y rôl honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol a fu gennych yn y gorffennol neu sydd gennych ar hyn o bryd.

Geirda

Rhowch enw dau ganolwr (cyflogwr a phersonol) – dim ond os bydd ymgeiswyr yn llwyddiannus y byddwn yn cysylltu â'r canolwyr.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau:	23 Tachwedd 2020 am 16:00
Rhestr fer:	w/c 7 Rhagfyr 2020
Cyfweliadau:	w/c 1 Chwefror 2021

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru − pobl o bob cefndir − i'w helpu i ddeall anghenion pobl ac i wneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Croesewir ceisiadau'n arbennig gan bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon. Wrth gyfeirio at 'feini prawf gofynnol', rydym yn golygu bod yn rhaid ichi roi tystiolaeth inni yn eich cais i ddangos eich bod, yn gyffredinol, yn bodloni lefel y cymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfaoedd pobl anabl. Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â publicappointments@llyw.cymru.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â publicappointments@llyw.cymru cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: publicappointments@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Cyngor Celfyddydau Cymru a rôl yr Aelodau, cysylltwch â Gary Williams (Llywodraeth Cymru):

Gary.Williams2@llyw.cymru neu Katy Brown (Cyngor Celfyddydau Cymru): Katy.Brown@arts.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch wrth wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus: publicappointments@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i: www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Atodiad A

Penodi Aelodau o Gyngor Celfyddydau Cymru

Rôl Aelod o'r Cyngor

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac felly, Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r agenda strategol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru. Mae'n dymuno annog pobl i gymryd rhan weithredol yn y celfyddydau, a sicrhau bod profiadau diwylliannol o ansawdd uchel ar gael i bawb yng Nghymru, ble bynnag y maent yn byw neu beth bynnag eu cefndir cymdeithasol.

Disgwylir i aelodau'r Cyngor:

- Gymryd rhan a chyfrannu'n effeithiol at weithgareddau'r Cyngor, yn enwedig o ran diffinio a datblygu ei gyfeiriad strategol, pennu a chyflawni amcanion heriol, a chefnogi polisi Llywodraeth Cymru;

- Adolygu gwaith y weithrediaeth, craffu arni, ei herio a'i chefnogi;

- Hyrwyddo safonau uchel o briodoldeb wrth reoli arian cyhoeddus, a sicrhau bod gweithgareddau'r Cyngor yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian o fewn fframwaith arferion gorau, rheoleidd-dra a phriodoldeb;

- Cymryd rhan yn y broses cynllunio corfforaethol, gan gynnwys cytuno ar gynlluniau cyllidebol blynyddol ar gyfer rhaglenni gweithredol a gweithgarwch corfforaethol;

- Gweithio fel rhan o Gyngor sy'n gwerthfawrogi gwahaniaeth mewn ffordd gadarnhaol ac sy'n herio ymddygiadau diarwybod;

- Ar ôl cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, penodi Prif Weithredwr, pe bai'r angen yn codi.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, **rhaid** ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y rôl:

Cyngor Celfyddydau Cymru

Sgiliau Hanfodol

- Gwybodaeth helaeth am y celfyddydau yng Nghymru a dealltwriaeth o flaenoriaethau a pholisïau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau;

- Dealltwriaeth glir o faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, ac ymrwymiad i'r materion hynny ac i hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau ac ennyn diddordeb ynddynt;

- Dealltwriaeth fanwl o'r heriau sy'n wynebu sefydliadau celfyddydol, CCC a'r rheini sy'n gweithio ym maes y celfyddydau ar hyn o bryd, a'r gallu i feddwl yn greadigol ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â'r heriau hynny;

- Llwyddiant yn y gorffennol wrth weithio mewn **un neu fwy** o'r ffurfiau /meysydd celfyddydol a ganlyn:

    - sut mae'r celfyddydau'n effeithio ar les cymunedau amrywiol ledled Cymru ac ar y bobl hynny sy'n dioddef anghydraddoldeb;
    - y diwydiannau creadigol − yn enwedig y celfyddydau digidol, dawns, llenyddiaeth;
    - hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau mewn awdurdodau lleol, mewn sefydliadau addysg neu sefydliadau iechyd;
    - masnachol − dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio sgiliau masnachol a chodi arian er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i sefydliadau celfyddydol.

- Y gallu i wneud penderfyniadau cadarn ar sail gwaith dadansoddi cadarn a gweledigaeth strategol;

- Profiad o gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel; yn enwedig y gallu i fod yn llysgennad ar gyfer y celfyddydau a'r gallu i arfer tact ac i fod yn ddiplomataidd wrth ddelio â rhanddeiliaid;

- Dealltwriaeth o egwyddorion llywodraethu da.

Rydym yn croesawu'n benodol geisiadau oddi wrth fenywod, pobl anabl ac unigolion o gefndir lleiafrifoedd ethnig sy'n wybodus am y celfyddydau yng Nghymru, sydd â diddordeb gwirioneddol yng ngwaith Cyngor Celfyddydau Cymru, ac sy'n gallu cyfrannu'n gadarnhaol at ei wneud yn gorff cyhoeddus sy'n perfformio'n dda.

Y Gymraeg

Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol, fel a ganlyn.

Dealltwriaeth: Gallu deall sgyrsiau arferol sy'n gysylltiedig â gwaith

Darllen: Gallu darllen rhywfaint o ddeunydd arferol sy'n gysylltiedig â gwaith gyda chymorth e.e. geiriadur

Cyngor Celfyddydau Cymru

Siarad: Gallu sgwrsio mewn rhai sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith

Ysgrifennu: Gallu paratoi deunydd arferol sy'n gysylltiedig â gwaith, a'r deunydd hwnnw'n cael ei wirio wedyn.

Dylai pob ymgeisydd hefyd ddangos bod ganddo/ganddi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog, a bod ganddo/ganddi werthfawrogiad o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith.

Arall:

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd ar-lein, yn Swyddfeydd CCC ym Mae Caerdydd ac mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru. Mae ymateb y Cyngor i Covid-19 yn golygu bod cyfarfodydd ar-lein yn fwy tebygol rhwng y tymor byr a'r tymor canolig.
Ymrwymiad Amser:	1.5 diwrnod y mis, tua 10 cyfarfod y flwyddyn
Cyfnod y Swydd:	Tair blynedd.
Tâl Cydnabyddiaeth:	Ni chynigir tâl, ond mae gan Aelodau'r hawl i gostau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau y cytunwyd arnynt.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?
Dylai ymgeiswyr nodi bod aelodaeth o Gyngor Celfyddydau Cymru yn swydd sy'n golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o'r Senedd, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made.

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi mewn awdurdod y tu allan i rôl Cyngor Celfyddydau Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn ystod y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol ichi ddatgan y buddiannau hynny ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a fydd yn llwyddiannus ar ôl y broses sifftio ac yn cael ei wahodd i gyfweliad. Bydd y gwiriadau hynny'n cynnwys chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd, ond ni fyddant o reidrwydd yn gyfyngedig i hynny. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau ichi yn y cyfweliad am unrhyw beth a ganfyddir yn ystod y gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arddel ac arfer safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen honno i'w gweld yma:

http://www.bl.uk/aboutu/llywodraethu/blfwrdd/Bwrdd%20Cod%20of%20Practice%202011.pdf

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Cefndir

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru drwy Siarter Frenhinol ym 1994. Mae Cyngor y Celfyddydau yn cael ei ariannu'n bennaf drwy gymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn elusen gofrestredig sy'n ddarostyngedig i'r Gyfraith Elusennau ac mae'n un o bedwar Dosbarthwr y Loteri yng Nghymru.

Dyma nodau'r Cyngor fel y'u nodir yn ei Siarter Frenhinol:

a) datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth am y celfyddydau a datblygu a gwella ymarfer yn y maes;
b) gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru;
c) cynghori a chydweithredu â Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol;
d) cyflawni'r nodau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhan o delerau ac amodau'r cyllid yw bod gan Aelodau'r Cyngor gyfrifoldeb unigol a chorfforaethol i Lywodraeth Cymru.

Gwybodaeth am Gyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor y Celfyddydau yw'r asiantaeth sy'n ariannu ac yn datblygu'r celfyddydau yn ein gwlad. Mae'n:

- **cefnogi ac yn datblygu gweithgarwch celfyddydol o ansawdd uchel** – mae'n buddsoddi arian cyhoeddus, sy'n cael ei ddarparu gan y trethdalwr, ac sy'n cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru, gan helpu'r celfyddydau i ffynnu yng Nghymru

- **datblygu a chyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau –** mae'n sicrhau bod mecanweithiau, prosesau a gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn cyflawni'r agenda strategol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y ddogfen strategaeth gyfredol (y Rhaglen Lywodraethu ar hyn o bryd) a'r llythyr Cylch Gwaith Blynyddol

- **dosbarthu arian y Loteri** – drwy geisiadau i'w raglenni ariannu, mae'n buddsoddi mewn prosiectau sy'n datblygu gweithgarwch newydd ym maes y celfyddydau, gan gefnogi unigolion a sefydliadau

- **rhoi cyngor am y celfyddydau –** drwy ei staff a'i gynghorwyr, Cyngor y Celfyddydau sydd â'r casgliad mwyaf yng Nghymru o arbenigedd a gwybodaeth am y celfyddydau

- **rhannu gwybodaeth –** mae Cyngor y Celfyddydau yn ganolfan genedlaethol ar gyfer rhwydwaith gwybodaeth am y celfyddydau yng Nghymru. Mae ganddo gysylltiadau rhyngwladol cryf hefyd yn y DU a thu hwnt

Cyngor Celfyddydau Cymru

- **codi proffil y celfyddydau yng Nghymru –** Cyngor y Celfyddydau yw llais cenedlaethol y celfyddydau yng Nghymru, gan sicrhau bod pobl yn ymwybodol o ansawdd, gwerth a phwysigrwydd celfyddydau'r wlad

- **creu mwy o arian i economi'r celfyddydau –** drwy fentrau fel y *Cynllun Casglu* – cynllun y Cyngor i annog mwy o bobl i brynu celfyddyd − a'i waith i sicrhau cyllid Ewropeaidd; mae'r rhain yn dod â mwy o arian i economi'r celfyddydau

- **dylanwadu ar gynllunwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau –** mae'r celfyddydau'n digwydd mewn llawer o leoliadau gwahanol. Maent yn gallu cael effaith ddramatig ar ansawdd bywydau pobl, ac ar y mannau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Y celfyddydau hefyd, yn aml, sydd wrth wraidd mentrau adfywio economaidd a chymdeithasol, o drawsnewid dysgu mewn ysgolion i hybu iechyd a lles. Mae Cyngor y Celfyddydau yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau bod y cyfraniad y gall y celfyddydau ei wneud yn cael ei gydnabod, ei werthfawrogi a'i ddathlu.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol yr holl ymgeiswyr i benderfynu pwy, yn ei farn ef, sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, ac felly pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Gary Williams, Pennaeth Rhaglenni Celfyddydol a Diwylliannol, Llywodraeth Cymru, fydd yn cadeirio'r panel dethol, a bydd yn cael ei gynorthwyo gan Dr Phil George, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru, a Helgard Krause, Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar “restr hir”, cyn iddo gael ei roi i’r panel sy’n llunio’r rhestr fer ei ystyried. Mewn sefyllfa o’r fath, dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod misoedd Tachwedd/ Rhagfyr 2020 pwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad ym mis Chwefror 2021.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, yna cewch eich gwahodd i gyfweliad hefyd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch ddod i gyfweliad ar y dyddiad hwnnw, byddwn yn ceisio ei ad-drefnu ond efallai na fydd hynny’n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Byddwch yn cael e-bost oddi wrth ein canolfan geisiadau i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal rhith-gyfweliadau. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, cewch ganllawiau a threfniadau ar gyfer cynnal eich cyfweliad ar-lein.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd ymgeiswyr a fydd, ym marn y panel, yn 'addas i’w penodi', yn cael eu hargymell i’r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae’n bosibl y bydd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn dewis cyfarfod â’r ymgeiswyr a fydd yn addas i’w penodi cyn iddo wneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â phob ymgeisydd ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu’r

cynrychiolydd a fydd wedi'i enwebu ganddo. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad terfynol ar benodi. Bydd ymgeiswyr a fydd wedi cael cyfweliad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses benodi.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr yn eich penodi'n Aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd y llythyr hwnnw'n cadarnhau ar ba delerau y cynigir y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn sylweddoli bod angen llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am rolau, a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O'r herwydd, bydd y llythyr yn rhoi manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais, os byddwch yn dymuno gwneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, cysylltwch â **publicappointments@llyw.cymru.**

Os nad ydych yn gwbl fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus: publicappointments@llyw.cymru.